Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

Rhagfyr 2025

## Cyflwyniad

### Ein dull o graffu

**1.** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth lafar gyda Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (y Dirprwy Brif Weinidog) ar 20 Tachwedd 2025, a chyda Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru (Ysgrifennydd y Cabinet) ar 26 Tachwedd 2025.

**2.** Darparodd y Gweinidogion bapurau tystiolaeth cyn y sesiynau. Mae'r rhain ar gael ar wefan y Pwyllgor.[1]

**3.** Oherwydd cyfyngiadau amser, nid oeddem mewn sefyllfa i gynnal sesiwn dystiolaeth lafar gyda Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio. Yn hytrach, fe wnaethom ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet gyda chwestiynau ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer ynni a chynllunio, sy'n dod o fewn ein cylch gorchwyl.

**4.** O ystyried diddordeb parhaus y Pwyllgor mewn datgarboneiddio tai, fe wnaethom hefyd ysgrifennu at Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, gyda chwestiynau ar ddyraniadau'r gyllideb i gynorthwyo gwaith cyflawni yn y maes polisi hwn.

[1] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 ar gyfer Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd, 20 Tachwedd 2025; Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Trafnidiaeth, 26 Tachwedd 2025

**5.** Mae'r llythyrau hyn ar gael ar wefan y Pwyllgor,[2] a chyhoeddir deunyddiau'r gyllideb ddrafft ar wefan Llywodraeth Cymru.[3]

## Trosolwg o ddyraniadau

**6.** Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu gwneud cymariaethau rhwng 2025-26 a dyraniadau cyllideb ddrafft 2026-27 gan ddefnyddio llinell sylfaen ddiwygiedig. I grynhoi, mae llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26 wedi ei chyfrifo, yna mae codiad chwyddiant wedi ei gymhwyso i gyfrifo llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2026-27 ar gyfer cymariaethau.

**7.** Mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn gyfrifol am y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Mae cyfanswm y dyraniadau a amlinellir yn y gyllideb ddrafft gyhoeddedig ar gyfer y MEG cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys materion gwledig, a bydd yr agweddau hyn yn destun craffu gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

**8.** Cyfanswm y dyraniad adnoddau ar gyfer Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL) sy'n ymwneud yn benodol â Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol o fewn y MEG ehangach yw £212.33 miliwn, sy'n 5.4 y cant o gynnydd o'i gymharu â'r waelodlin ddiwygiedig, tra bod cyfanswm y dyraniad cyfalaf yn £202.39 miliwn, sy'n 16.4 y cant o gynnydd o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig.

**9.** Gwelodd y MEG Trafnidiaeth £29 miliwn o gynnydd cyffredinol mewn cyllidebau refeniw i £924.07 miliwn (gan gynnwys dyraniadau nad ydynt yn arian parod) a £23 miliwn o gynnydd mewn cyfalaf i £551.37 miliwn.

**10.** Ar ôl i ni gwblhau ein gwaith craffu ar y gyllideb, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi dod i gytundeb cyllideb gyda Phlaid Cymru.[4]

---

[2] Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi Ynni a Chynllunio at y Cadeirydd ynghylch cyllideb ddrafft 2026-27, 2 Rhagfyr 2025; Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at y Cadeirydd ynghylch cyllideb ddrafft 2026-27, 1 Rhagfyr 2025.
[3] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2026 i 2027
[4] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg, Cytundeb Cyllideb, 9 Rhagfyr 2025

# Rhan 1: Newid hinsawdd

## Gweithredu ar newid hinsawdd

**11.** Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn cwmpasu nifer o feysydd sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd: addasu i'r hinsawdd; y rhaglen datgarboneiddio; arloesi datgarboneiddio/byw'n glyfar; y cynllun masnachu allyriadau a phrisio carbon; y rhaglen newid ymddygiad sy'n cael ei arwain gan yr hinsawdd; a gweithredu hinsawdd rhyngwladol. Mae'r dyraniad adnoddau wedi cynyddu o £3.81 miliwn i £3.87 miliwn, ac nid oes dyraniadau cyfalaf yn y maes hwn.

**12.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ymgorffori ei hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth mae'n ei wneud. [5] Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrthym nad yw mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn fater penodol i un adran.[6] Rydym yn cytuno bod angen integreiddio'r ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ar draws adrannau'r llywodraeth. Gan hynny, fe wnaethom bwyso ar y Dirprwy Brif Weinidog i'w gwneud hi'n fwy eglur sut roedd ymateb i'r argyfwng hinsawdd wedi ei ymgorffori mewn penderfyniadau ar draws y Llywodraeth. Awgrymodd ei swyddog y gallai iteriad nesaf y Cynllun Sero Net, sydd i fod i gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2026, fod yn fwy eglur ar ba ddyraniadau cyllid sy'n cefnogi camau gweithredu o fewn y cynllun.[7]

**13.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog y dylai pob gweithred gan y Llywodraeth adlewyrchu addasu i'r hinsawdd[8]. O ran y cynnydd bach yn y gyllideb adnoddau er mwyn cynorthwyo gweithredu ar newid hinsawdd, dywedodd:

> *"it may be a relatively small uplift in the allocation, but that small uplift allows us to keep that work going across other areas, so that it's not siloed."*[9]

[5] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu
[6] Y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 8
[7] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 13
[8] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 22
[9] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 28

**14.** Rydym yn falch bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi cydnabod yr angen am lefelau uwch o gyllid i gynyddu'r gwaith o addasu i'r hinsawdd. Nodwn ei sylw nad yw cyllid cyhoeddus yn unig yn ddigon, a bod angen denu mwy o fuddsoddiad preifat. Aeth ymlaen i ddweud bod y Llywodraeth yn cynllunio mwy o waith i archwilio hynny, sy'n mynd i adeiladu ar y gwaith a wnaed yn barod[10]. Byddem yn croesawu diweddariad ar y gwaith hwn.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau ar gyfer y presennol a'r dyfodol o ran cynyddu lefelau cyllid i gynyddu'r gwaith o addasu i'r hinsawdd, yn enwedig drwy fuddsoddiad preifat, a sut mae'r cynlluniau hynny'n cyd-fynd â'r egwyddorion buddsoddi cynaliadwy.

**15.** Rydym hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu atebion sy'n seiliedig ar natur wrth addasu i newid yn yr hinsawdd. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar yr ymateb i stormydd diweddar,[11] gall ymyriadau o'r fath fod yn effeithiol ac yn gost-effeithiol, gan sicrhau manteision amgylcheddol ehangach. Gan hynny, rydym yn ailadrodd ein hargymhelliad o'r adroddiad hwnnw, o ystyried eu heffaith bosibl, y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ehangu atebion sy'n seiliedig ar natur, a sicrhau bod lefelau priodol o gyllid ar gael at y diben hwnnw.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n blaenoriaethu ehangu atebion sy'n seiliedig ar natur wrth addasu i'r newid yn yr hinsawdd, a sicrhau lefelau digonol o gyllid at y diben hwnnw.

## Sero net

**16.** Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chynllun lleihau allyriadau nesaf (Cyllideb Garbon Sero Net Cymru (2021 i 2025) ar hyn o bryd),[12] erbyn diwedd 2026, gan gwmpasu cyfnod ei thrydedd cyllideb garbon (2026-2030). Mae'r BEL gweithredu ar newid hinsawdd yn cynnwys cyllid i ddatblygu llwybrau datgarboneiddio, datblygu polisi a gweithredu.

[10] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 31
[11] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Ymateb i stormydd diweddar, Medi 2025
[12] Llywodraeth Cymru, Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025), 21 Hydref 2021

**17.** O ran gwaith i ddatblygu'r Cynllun Net Sero nesaf, nododd y Dirprwy Brif Weinidog mai mater i'r Llywodraeth nesaf fydd gwneud penderfyniadau allweddol ar hynny, a'i fod yn mynd i fod yn fwy heriol.[13]

**18.** Mae'r dyraniad adnoddau ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru[14] wedi cynyddu 1.9 y cant o £4.17 miliwn i £4.25 miliwn. Mae'r £22.2 miliwn o ddyraniad cyfalaf yn cynnwys £10.2 miliwn o Gyfalaf Trafodion Ariannol. Er mai cyfrifoldeb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yw ynni, mae'r Gwasanaeth Ynni ym mhortffolio Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Mae'r Gwasanaeth Ynni yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus a mentrau cymunedol i leihau'r defnydd o ynni, cynhyrchu ynni adnewyddadwy sydd o dan berchnogaeth leol a lleihau allyriadau carbon.

**19.** Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i'r sector cyhoeddus fod yn sero net erbyn 2030. Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weinidog fod datgarboneiddio'r sector cyhoeddus yn 'flaenoriaeth uchaf', a bod y Llywodraeth yn parhau i fod wedi ymrwymo i'w huchelgais ar gyfer 2030. Fodd bynnag, derbyniodd fod hynny'n heriol.[15]

**20.** Rydym yn nodi barn y Dirprwy Brif Weinidog bod cael y lefel honno o uchelgais ar gyfer sero net 2030 wedi ysgogi llawer o weithredu ar draws cyrff cyhoeddus.[16] Fodd bynnag, rydym yn parhau i bryderu a yw'r uchelgais yn gyraeddadwy ac a yw'r cynnydd bach yn y dyraniad ar gyfer y Gwasanaeth Ynni yn ddigonol. Canfu'r adroddiad ym mis Mawrth 2025 ar Allyriadau Carbon Sector Cyhoeddus Cymru 2024 "Ar lefel y sector cyhoeddus cyfan, cynyddodd allyriadau 13% yn gyffredinol ar draws yr holl gategorïau allyriadau",[17] er ein bod ni'n nodi sylwadau'r Dirprwy Brif Weinidog fod mwy o sefydliadau bellach yn adrodd data.

**21.** O ran y cynnydd mewn cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Ynni, teimlai'r Dirprwy Brif Weinidog ei fod yn 'briodol'[18] ond pwysleisiodd mai man cychwyn yw'r gyllideb hon. Cyfeiriodd at y ffaith bod allyriadau cwmpas 1 a 2 yn lleihau. Fodd

[13] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 50
[14] Llywodraeth Cymru, Y Gwasanaeth Ynni (ar gyfer y sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol)
[15] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 54
[16] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 54
[17] Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, Adrodd ar Sero Net: Allyriadau Carbon Sector Cyhoeddus Cymru 2024, Mawrth 2025
[18] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 62

bynnag, nodwn fod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei adroddiad ar 2025 wedi tynnu sylw at y ffaith bod allyriadau cwmpas 3 yn parhau i fod yn her.[19]

## Diogelwch tomenni glo a chronfeydd dŵr

**22.** Mae’r dyraniad adnoddau ar gyfer y BEL Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr wedi cynyddu o £3.88 miliwn i £9.88 miliwn, tra bod y dyraniad cyfalaf wedi cynyddu o'r llinell sylfaen ddiwygiedig o £15.22 miliwn i £40.22 miliwn.

### Diogelwch tomenni glo

**23.** Rydym yn croesawu'r cynnydd mewn cyllid ar gyfer diogelwch tomenni glo, a ddarperir drwy'r Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo. Mae’r cynllun yn darparu cyllid i awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW mewn dyfyniadau yn y ddogfen hon) i wneud gwaith cynnal a chadw ar domenni glo sy’n eiddo cyhoeddus a phreifat i reoli a lleihau’r bygythiad o lithriadau.

**24.** Nodwn esboniad y Dirprwy Brif Weinidog fod y dyraniad ar gyfer y cynllun yn seiliedig ar weithio'n agos gydag awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi ‘beth sydd ei angen arnom yma, nawr’, a beth fydd ei angen arnom y flwyddyn nesaf, a beth fydd ei angen arnom y flwyddyn wedyn[20]. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"The budget allocation we brought forward for 2026-27 reflects accurately what can be delivered feasibly by local authorities and NRW within a single financial year, but we do have to keep assessing this as the years go by, as the new schemes come forward, as the capacity grows, so we have a real, achievable, successful grant scheme programme of work going forward."*[21]

**25.** Byddem yn croesawu dadansoddiad o ba domenni sydd wedi eu nodi ar gyfer gwaith a gyllidir drwy'r cynllun yn 2026-27, gan gynnwys pa gategorïau o domenni maent yn perthyn iddynt.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu dadansoddiad o ba domenni a gafodd gymorth gan y Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo yn 2025-26, gan gynnwys swm y cyllid a gafwyd a chategori'r domen. Dylai hefyd egluro

---

[19] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025
[20] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 71
[21] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 72

cyfanswm dyraniad y cynllun grant ar gyfer 2026-27, gan gynnwys y nifer a ragwelir o domenni nas defnyddir a fydd yn elwa ar waith cynnal a chadw ac adfer, eu lleoliad a'u categori.

**26.** Mae'r dyraniad cyfalaf ar gyfer y BEL Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr yn cynnwys cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Awgrymir ym mhapur tystiolaeth Llywodraeth Cymru bod hyn yn gyfanswm o £25 miliwn ar gyfer 2026-27.[22] Yn ei hadolygiad gwariant diweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bod yn:

> *"…further investing in local communities [in Wales] with £118 million new spend over three years, building on UK Government collaboration with the Welsh Government on coal tip safety."*[23]

**27.** Cyfeiriodd y Dirprwy Brif Weinidog at y cyllid a ymrwymwyd ar gyfer diogelwch tomenni glo gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a dywedodd y byddai angen i'r 'bartneriaeth'[24] barhau y tu hwnt i dair blynedd. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru barhau i ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y lefel uchaf er mwyn sicrhau cyllid hirdymor digonol ar gyfer rhaglen diogelwch tomenni glo Cymru.

## Diogelwch cronfeydd dŵr

**28.** O fewn y BEL Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr mae £4.9 miliwn wedi ei ddyrannu i ddiogelwch cronfeydd dŵr, gan gynnal yr un lefel o gyllid ag yn 2025-26. Dywedir ym mhapur tystiolaeth Llywodraeth Cymru bod diogelwch cronfeydd dŵr yn hanfodol bwysig o ystyried effaith newid yn yr hinsawdd a'r risgiau os nad yw cronfeydd dŵr yn cael eu cynnal.[25]

**29.** Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet bod llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig yn gweithio gyda'i gilydd i ddiwygio'r

---

[22] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd, 20 Tachwedd 2025
[23] Trysorlys Ei Fawrhydi, Adolygiad Gwariant 2025, Mehefin 2025
[24] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 80
[25] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd, 20 Tachwedd 2025

gyfundrefn diogelwch cronfeydd dŵr ledled Cymru a Lloegr drwy'r Rhaglen Diogelwch Cronfeydd Dŵr.[26]

**30.** Clywsom fod disgwyl ymgynghoriad ar y cyd â Lloegr ‘yn gynnar yn 2026’[27] ar ddiwygiadau arfaethedig i ddiogelwch cronfeydd dŵr. Mae'r gyllideb ddrafft yn dyrannu ychydig o dan £3 miliwn o gyllid cyfalaf i Cyfoeth Naturiol Cymru i weithredu gwelliannau i gronfeydd dŵr mae'n gyfrifol amdanynt. Mae £1.9 miliwn arall o gyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu i'r Cynllun Grant Diogelwch Cronfeydd Dŵr newydd, er mwyn galluogi awdurdodau cyhoeddus sy'n berchen ar gronfeydd dŵr i wneud gwaith hanfodol. Bydd hyn hefyd yn cyllido gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru ar 'gronfeydd dŵr amddifad'.

**31.** Edrychwn ymlaen at fonitro cynnydd yn y maes hwn, a gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi diweddariadau i ni.

## Cyfoeth Naturiol Cymru

**32.** Mae dyraniad adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru (cymorth grant) wedi cynyddu 2 y cant o £103.49 miliwn i £105.34 miliwn. Mae ei ddyraniad cyfalaf yn aros yr un fath ar £27.81 miliwn.

**33.** Ym mis Hydref 2024, rhoddodd Llywodraeth Cymru £19 miliwn o fenthyciad i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer atebolrwydd trethi nad oedd wedi eu talu, yn dilyn ymchwiliad gan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Mae’r bil treth yn ymwneud â materion cydymffurfio hanesyddol â rheolau gweithio oddi ar y gyflogres a’r defnydd o gontractwyr.

**34.** Ar 24 Hydref 2025, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad yn cadarnhau bod ymchwiliad Cyllid a Thollau wedi dod i ben gan arwain at setliad terfynol o £14.6 miliwn.[28] Fel rhan o'r setliad, rhoddodd Cyllid a Thollau gosb o £2.9 miliwn, wedi ei hatal am 12 mis, yn amodol ar Cyfoeth Naturiol Cymru yn bodloni amodau cydymffurfio penodol.

**35.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrthym fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno ar drefniadau lleihau'r gyllideb i adennill y sicrwydd arian parod sy'n weddill ar y gyllideb a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Sicrhaodd y Dirprwy Brif

[26] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Diwygio Diogelwch Cronfeydd Ddŵr, 4 Tachwedd 2024
[27] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 82
[28] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cwblhau ymchwiliad Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi i drefniadau treth IR35 Cyfoeth Naturiol Cymru 24 Hydref 2025

Weinidog fod swyddogion wedi gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud yn siŵr bod y gostyngiad hwn yn y gyllideb yn fforddiadwy i Cyfoeth Naturiol Cymru.[29] Aeth ymlaen i ddweud na fydd y gostyngiad yn cael effaith ar ei swyddogaethau craidd na'i ddyletswyddau statudol.[30]

**36.** Amlinellodd swyddog o Lywodraeth Cymru gynllun ad-dalu Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y £14.6 miliwn sy'n ddyledus. Rhoddwyd tanwariant o £4.4 miliwn yn y flwyddyn ariannol flaenorol tuag ato fel taliad cychwynnol, i'w ddilyn gan £1.6 miliwn y flwyddyn am bump neu chwe blynedd. Clywsom y gallai fod lle i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud taliadau ychwanegol gyda thanwariant pellach, ac y gall y benthyciad gael ei dalu'n gynt na'r cynllun talu y cytunwyd arno. Esboniodd y swyddog o Lywodraeth Cymru:

> *"Should there be a position where NRW again has an underspend at the end of the year, obviously that is a dialogue they can have with the Minister as to whether that's the most appropriate use of that funding, to further reduce the liability, or if that money would be better directed to other priorities within the Minister's portfolio, or the Government more broadly. We will no doubt have that discussion over the next couple of months with NRW for this financial year, and probably going forward. My expectation would be that it's likely to be paid off earlier than that payment plan, but that's obviously subject to decisions and depending on where they are at the end of each financial year."*[31]

**37.** Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Dirprwy Brif Weinidog gadarnhau'r ddyled sy'n weddill a'r cynllun talu y cytunwyd arno yn ysgrifenedig. Byddem hefyd yn croesawu diweddariad ar sut bydd Llywodraeth Cymru yn monitro a fydd y gostyngiad yn cael effaith ar swyddogaethau craidd a dyletswyddau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y benthyciad i Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cynllun talu y cytunwyd arno. Dylai hefyd

[29] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 87
[30] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 87
[31] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 89

nodi sut bydd yn monitro ac yn gwerthuso unrhyw effaith ar gyflawni swyddogaethau craidd a dyletswyddau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Rhaglen Rheoli Perygl Arfordiroedd

**38.** Nodir ym mhapur tystiolaeth Llywodraeth Cymru bod y Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol yn tynnu tua'i therfyn.[32] Fe'i sefydlwyd i roi cyllid i awdurdodau lleol arfordirol i gyflawni camau gweithredu mewn Cynlluniau Rheoli Traethlin. Dywedir yn y papur bod y Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol wedi buddsoddi £291 miliwn mewn 15 cynllun arfordirol dros ei oes bum mlynedd, gan fod o fudd i bron i 14,000 o eiddo.

**39.** Esboniodd y Dirprwy Brif Weinidog fod disgwyl i awdurdodau lleol godi'r cyfalaf a chyllido 15 y cant o gost y prosiect ar gyfer adeiladu; yna mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyfraniad o 85 y cant.[33] Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod cyfraniad o tua £150 miliwn o gyllid refeniw, ond nododd ei bod wedi costio cynigion yn llawn cyn cytuno ar gyllid[34] a bod cost y rhaglen lawn wedi cynyddu i £291 miliwn.

**40.** Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weinidog y byddai'r cynllun yn cael ei adolygu. Rydym yn croesawu'r adolygiad hwn ac rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o'r Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol cyn diwedd y Chweched Senedd.

## Yr economi gylchol

**41.** Mae dyraniad adnoddau BEL Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol wedi cynyddu 1.9 y cant o £35.85 miliwn i £36.52 miliwn. Mae'r dyraniad cyfalaf wedi gostwng 10 y cant, o £41.85 miliwn i £37.65 miliwn.

**42.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Prif Weinidog:

> *"Mae'r Economi Gylchol wedi derbyn cyllid adnoddau ychwanegol i barhau i adeiladu ar berfformiad Cymru ar*

[32] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd, 20 Tachwedd 2025
[33] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 100
[34] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 101

*ailgylchu, sydd gyda'r gorau yn y byd, ac i wireddu'r cyfleoedd economaidd sy'n deillio o ddefnyddio adnoddau a deunyddiau am gyhyd â phosibl."*[35]

**43.** Dywedodd fod y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf yn "adlewyrchu proffil prosiectau Awdurdodau Lleol yn 2025/26." Cyfeiriodd at yr un rheswm am 11 y cant o ostyngiad mewn gwariant cyfalaf yng nghyllideb y llynedd.[36]

**44.** Yn ôl y Dirprwy Brif Weinidog, bydd cyllid adnoddau yn cynorthwyo partneriaid allanol i gyflawni nodau economi gylchol, gan gynnwys:

- datblygu Cynllun Dychwelyd Ernes;
- gweithredu'r Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr;
- cyflawni diwygiadau ailgylchu yn y gweithle;
- cyflwyno caffis atgyweirio a dosbarthu bwyd; a hefyd
- cyllido'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy ar gyfer awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 6.** Byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am y dyraniadau penodol o fewn y BEL, a rhagor o wybodaeth am gyfleoedd economaidd, gan gynnwys faint sy'n cael ei wario ar fentrau a gwasanaethau ymgynghori i gefnogi'r newid i economi gylchol. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n monitro ac yn gwerthuso ei buddsoddiad.

## Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy

**45.** Nodwn nad oes gan y Dirprwy Brif Weinidog bryderon ynghylch uchelgais awdurdodau lleol ar wastraff, a'i fod wedi priodoli lleihau'r galw am gyfalaf i gymhlethdodau wrth gyflawni prosiectau presennol yn brydlon, gan nodi enghreifftiau yn Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot, a Sir Gaerfyrddin.[37]

**46.** Rydym yn pryderu, o ystyried mai hwn yw'r ail ostyngiad yn olynol mewn gwariant cyfalaf ar wastraff, bod Llywodraeth Cymru yn debygol o fethu o leiaf rhai o'i thargedau gwastraff ar gyfer 2025, yn seiliedig ar dueddiadau ailgylchu a

[35] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd, 20 Tachwedd 2025
[36] Llywodraeth Cymru, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, 8 Ionawr 2025
[37] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 118

defnydd y blynyddoedd diwethaf. Byddem yn falch o gael gwybod a oedd gwersi i'w dysgu o'r prosiectau cymhleth hyn a oedwyd, a allai helpu i symleiddio cyflawni prosiectau yn y dyfodol. Nodwn fod y Dirprwy Brif Weinidog wedi dweud y canlynol:

> *"We keep really close engagement with local authorities on this, through my officials, on all the projects that are being brought forward. Because what we want to do is support them in bringing these projects forward, even if they do sometimes have complications at a local level, because it is so integral to our ambitions as a nation within the circular economy space."*[38]

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â chyflawni cynlluniau ailgylchu cymhleth awdurdodau lleol ac asesu sut gellir cymhwyso'r canfyddiadau i wella'r gwaith o gyflawni prosiectau yn y dyfodol.

## Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr

**47.** Bydd y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn symud y gost o ddelio â gwastraff pecynnu i ffwrdd o gyllid cyhoeddus ac ymlaen i gynhyrchwyr pecynnu, a fydd yn talu am gost lawn rheoli gwastraff pecynnu o gartrefi. Bydd taliadau'n cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol i dalu costau casglu, rheoli, ailgylchu a gwaredu gwastraff pecynnu yn y cartref. Mae'n cael ei redeg gan Pack UK ar ran Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig. Dechreuodd y cynllun yn 2025-26, ac mae awdurdodau lleol i fod i dderbyn taliadau o chwarter olaf 2025.[39]

**48.** Rhoddodd y Dirprwy Brif Weinidog sicrwydd y byddai Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn dod ag 'ychwanegedd'[40] ac na fyddai'n disodli cyllid economi gylchol Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Awgrymodd fod gan Lywodraeth Cymru rôl oruchwylio wrth benderfynu ar ddyrannu cyllid Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, gan ddweud:

> *"we're laser-focused as the Welsh Government on making sure that the funding that is drawn from EPR and the polluter-pays*

[38] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 126
[39] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Guidance: Extended producer responsibility for packaging: local authority payments
[40] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 128

> *principle goes to rewarding and incentivising the right behaviour—so, those authorities that are investing in efficient waste management, et cetera. Those payments go to drive forward performance. They're not just handouts of cash, they're going to authorities who are set on doing more within improving their performance, or to those authorities who want to drive up where they're not succeeding already.*
>
> *Within the Welsh Government, what comes through EPR, and in our discussions with local authorities and with the UK Government, is getting those payments designed rightly so that they go to the right space and the right local authorities, not just a more random doling out of additional funds."*[41]

**49.** Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae hyn yn cael ei arfer o ystyried bod y cynllun yn un ledled y Deyrnas Unedig ac yn cael ei gyflawni gan weinyddwr annibynnol. Mae canllawiau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn awgrymu bod methodoleg safonol ar gyfer sut mae cyllid yn cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol yn seiliedig ar alw, natur wledig ac amddifadedd. Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Dirprwy Brif Weinidog egluro cyfranogiad Llywodraeth Cymru wrth benderfynu ar ddyraniadau cyllid Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei rôl wrth bennu dyraniadau cyllid Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a sut bydd taliadau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn ategu cyllid presennol fel y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy.

### Cynllun Dychwelyd Ernes

**50.** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig eraill ar Gynllun Dychwelyd Ernes yn y Deyrnas Unedig. Roedd y cynllun wedi ei gynllunio'n wreiddiol ar gyfer Hydref 2025 ond mae wedi ei ohirio. Roeddem yn falch o glywed na fydd unrhyw oedi pellach, gyda disgwyl cyflwyno'r cynllun ledled y Deyrnas Unedig ym mis Hydref 2027. Mae'r cynllun yn cael ei gyllido o gyllideb y rhaglen bresennol[42]. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog ei fod yn edrych ymlaen at y cyfleoedd a fydd yn codi o hyn,

[41] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 129-130
[42] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 136

gan ddangos 'unwaith eto, bod Cymru yn arwain yn y maes hwn'[43]. Rydym yn edrych ymlaen at fonitro cynnydd yn y maes hwn.

## Bioamrywiaeth

**51.** Mae'r dyraniad adnoddau ar gyfer bioamrywiaeth a thystiolaeth BEL wedi gostwng 3.9 y cant o £11.53 miliwn i £11.07 miliwn, tra bod y dyraniad cyfalaf wedi gostwng 8 y cant o £12.5 miliwn i £11.5 miliwn. Fodd bynnag, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrthym nad gostyngiad cyffredinol yw hwn, a bod trosglwyddiadau mewnol o fewn dyraniadau BEL o fewn y MEG cyffredinol.[44]

### Targed natur 30 erbyn 30

**52.** Mae adroddiad cynnydd ledled y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y sector amgylcheddol ar y targedau natur byd-eang '30 erbyn 30' yn awgrymu y rhagwelir y bydd Cymru yn methu cyrraedd ei thargedau o gryn bellter.[45] Cydnabu'r Dirprwy Brif Weinidog fod Cymru, fel cenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig, yn dal i fod yn brin o'r targed hwnnw, a bod angen cyflymu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn.[46]

**53.** Bydd cyllideb 2026-27 yn allweddol o ran bwrw ymlaen â'r gwaith yn y maes hwn cyn blwyddyn darged 2030. Gan hynny, rydym yn tynnu sylw at alwadau Cyswllt Amgylchedd Cymru am gynnydd mewn buddsoddiad mewn natur yn ei adroddiad 'Pathways to 2030' sy'n nodi costau a chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur yng Nghymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos dealltwriaeth glir o raddfa'r cyllid sydd ei angen ar gyfer adfer natur. Mae ein hadroddiad ar 'atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030' yn darparu argymhellion ar fuddsoddi mewn natur, ac rydym yn ailadrodd y galwadau hynny yn yr adroddiad hwn.[47]

**54.** Byddai targedau bioamrywiaeth domestig yn cael eu cyflwyno gan reoliadau o dan Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) os yw'n pasio ac yn cael ei ddeddfu. Dywedir ym mhapur

[43] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 136
[44] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 142
[45] Wildlife and Countryside Link, 30 by 30 2025 UK Progress Report
[46] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 144
[47] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Atal a gwrthdroi colli natur, Ionawr 2025

tystiolaeth y Dirprwy Brif Weinidog na ddisgwylir “effaith ariannol lawn y targedau hyn tan ar ôl i'r Bil gael ei basio gan y Senedd, a fyddai'n debygol o olygu blwyddyn ariannol 2026-27". Fodd bynnag, ni ddarperir manylion. Nodir yn y papur y bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ychwanegol yn cael ei gynhyrchu ochr yn ochr â'r is-ddeddfwriaeth.[48] Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog ei fod hefyd yn rhagweld lle bydd y costau’n dod wrth i'r ddeddfwriaeth ddod yn ei blaen.[49]

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r dyraniadau cyllideb ar gyfer bioamrywiaeth. Dylai nodi sut bydd y dyraniad hwn yn hyrwyddo cynnydd tuag at dargedau bioamrywiaeth byd-eang 2030. O ystyried y rhagwelir na fydd y targed 30 erbyn 30 yn cael ei gyrraedd, dylai'r llywodraeth ystyried cynyddu dyraniadau ar gyfer bioamrywiaeth yng ngoleuni'r argyfwng natur.

### Cronfa Rhwydweithiau Natur a buddsoddiad preifat

**55.** Rydym yn croesawu'r buddsoddiadau a amlygodd y Dirprwy Brif Weinidog drwy'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, Natur am Byth, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd ac eraill. Rydym yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y cronfeydd hyn yn parhau i fod ar gael. Rydym yn cytuno â’r Dirprwy Brif Weinidog pan fynnodd bod ‘angen i ni wneud mwy’[50] i gynyddu buddsoddiad mewn adfer natur.

**56.** Y Gronfa Rhwydweithiau Natur yw prif raglen arian grant Llywodraeth Cymru ar gyfer safleoedd gwarchodedig. Rydym yn nodi bod y Gronfa Rhwydweithiau Natur wedi ei gordanysgrifio, ac fel mecanwaith allweddol i yrru adferiad natur ar raddfa tirwedd, credwn y dylid diogelu'r gronfa hon, a dylid ystyried cynyddu ei dyraniad. O ran y gronfa, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog y gellid ystyried y ffaith ei bod wedi ei gordanysgrifio fel rhywbeth ‘negyddol’. Fodd bynnag, dywedodd:

> *“I see it as a positive. We've got a real demand out there. What we do need to do, though, within the budget constraints that we have, is maximise the number of projects that receive funding. So, I don't want to narrow that down and say, 'Let's put*

---

[48] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd, 20 Tachwedd 2025
[49] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 187
[50] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 147

> *larger dollops out to fewer'. Let's make sure that we get a real big impact here, widely across Wales."*[51]

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynyddu cyllid ar gyfer y Gronfa Rhwydweithiau Natur a'r Gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

**57.** Nodwn bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi mynnu na fydd EU LIFE yn cael ei ddisodli,[52] sydd, yn ein barn ni, yn cynyddu pwysigrwydd y Gronfa Rhwydweithiau Natur ar gyfer prosiectau adfer ar raddfa fawr. Clywsom y bydd y Gronfa Rhwydweithiau Natur yn cael ei halinio â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog y bydd y cynllun Ffermio Cynaliadwy yn allweddol o ran cyflawni 30 erbyn 30.[53] Hoffem gael eglurder ynghylch sut bydd hynny'n gweithio yn ymarferol a sut gall ffermwyr fanteisio ar y Gronfa'n well.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd Cronfa Rhwydweithiau Natur yn cael ei halinio â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys sut bydd yn gweithio'n ymarferol a sut gall ffermwyr ddefnyddio'r gronfa.

**58.** Rydym yn croesawu cynlluniau i drosoli mwy o arian ar gyfer natur drwy fuddsoddiad preifat. Rydym wedi clywed galwadau gan randdeiliaid ers peth amser am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn, ac am gamau gweithredu i fynd i'r afael â rhwystrau i fuddsoddiad preifat. Byddem yn croesawu diweddariad ar y gwaith hwn yn dilyn ymgynghoriad 2024 ar Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy,[54] i arallgyfeirio'r cyllid sydd ar gael ar gyfer natur.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae'n cynyddu arian ar gyfer natur drwy fuddsoddiad preifat, yn dilyn yr ymgynghoriad ar Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy.

### Bwlch sgiliau ecolegol

**59.** Nodwn bod y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) wedi tynnu sylw at fylchau capasiti yn y sector ecoleg.[55] Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod darn eang o fuddsoddiad yn yr hyn y gellid ei alw'n sgiliau ecolegol,

[51] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 153
[52] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 161
[53] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 145
[54] Llywodraeth Cymru, Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy, 10 Medi 2024
[55] Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol, Opening Up Vocational Pathways Into Nature-based Green Jobs

a bod y Llywodraeth eisoes yn gwneud hynny. Aeth ymlaen i restru amrywiaeth o ffyrdd ar gyfer datblygu sgiliau ecolegol drwy wahanol gynlluniau a rhaglenni.[56]

**60.** Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod hwn yn ddull tameidiog, ac rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull mwy strategol o ddatblygu sgiliau ecolegol fel bod modd goruchwylio i nodi bylchau a chyfleoedd.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ar gyfer nodi a llenwi'r bylchau capasiti a sgiliau yn y sector ecoleg.

## Morwellt a morfa heli

**61.** Mae'r dyraniad adnoddau ar gyfer y BEL Polisi Morol, Tystiolaeth ac Ariannu wedi cynyddu 2 y cant, o £2.36 miliwn i £2.41 miliwn. Nid oes dyraniad cyfalaf ar gyfer y BEL hwn.

**62.** Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "Sefydlu cynllun wedi'i dargedu i hyrwyddo gwaith adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli ar hyd ein harfordir". Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mynnodd y Dirprwy Brif Weinidog fod yr ymrwymiad hwn bellach wedi ei gwblhau, drwy ddyfarniadau cyllid i Rwydwaith Morwellt Cymru ac Ymddiriedolaethau Natur Gogledd Cymru.[57] Cafodd y Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol ei gyhoeddi y llynedd ac mae'n cael ei weithredu gan Rwydwaith Morwellt Cymru. Bydd Ymddiriedolaethau Natur Gogledd Cymru yn datblygu Cynllun Gweithredu Rhwydwaith Morfa Heli, ond nid yw hwn wedi ei gyhoeddi eto.

**63.** Rydym yn croesawu'r £100,000 ychwanegol a ddarparwyd dros gyfnod 2024-26 i Rwydwaith Morwellt Cymru ar gyfer datblygu Cynllun Gweithredu Morwellt. Nodwn sylw'r Dirprwy Brif Weinidog nad oes unrhyw gyllid gwarantedig eto ar gyfer 2026/27, a'i fod yn archwilio opsiynau ar gyfer cyllid hirdymor, gan gynnwys cyllid preifat.[58] Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i roi'r cyllid hwn ar waith fel y gellir cyflawni'r Cynllun Gweithredu.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut bydd yn sicrhau cyllid hirdymor i Rwydwaith Morwellt Cymru ddatblygu Cynllun Gweithredu Morwellt.

[56] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 165
[57] Llywodraeth Cymru, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd, 20 Tachwedd 2025
[58] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 20 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 183

**64.** Rydym yn croesawu'r £30,000 cychwynnol i ddechrau datblygu cynllun gweithredu morfa heli. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrthym y byddai diweddariad cynnydd ar y cynllun gweithredu yn ystod y gwanwyn. O ystyried bod ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i "Sefydlu cynllun wedi'i dargedu i hyrwyddo gwaith adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli ar hyd ein harfordir", rydym yn disgwyl i'r cynllun gweithredu gael ei gyhoeddi erbyn diwedd y Senedd hon, gyda digon o adnoddau i alluogi Llywodraeth nesaf Cymru i'w weithredu.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi Cynllun Gweithredu Morfa Heli erbyn diwedd y Senedd hon a sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau fel bod modd i Lywodraeth nesaf Cymru ei weithredu.

**65.** Rydym yn pryderu am honiad y Dirprwy Brif Weinidog bod datblygu'r ddau gynllun gweithredu hyn yn golygu bod yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu bellach wedi ei gwblhau, o ystyried nad yw'r Cynllun Gweithredu Morfa Heli wedi ei gyhoeddi eto, a bod ansicrwydd cyllido ar gyfer Morwellt. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal momentwm yn y maes hwn yn y Senedd nesaf.

# Rhan 2: Trafnidiaeth

**66.** Gwelodd y MEG Trafnidiaeth £29 miliwn o gynnydd cyffredinol mewn cyllidebau refeniw i £924.07 miliwn (gan gynnwys dyraniadau nad ydynt yn arian parod) a £23 miliwn mewn cyfalaf i £551.37 miliwn. Mae'r ddau gynnydd yn cael eu cymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig.

**67.** Noda Ysgrifennydd y Cabinet ei flaenoriaethau ar gyfer y gyllideb ddrafft yn ei bapur, fel a ganlyn:

> *"Yng nghyd-destun blaenoriaeth y Llywodraeth ar gyfer Gwell Trafnidiaeth, y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), a moderneiddio ein grantiau trafnidiaeth i gyflawni Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, datblygwyd cyllidebau trafnidiaeth yn seiliedig ar y blaenoriaethau canlynol:*
>
> *1. Cynnal gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus lle bynnag y bo modd*
>
> *2. Gwella'r fflyd bysiau yng Nghymru a pharatoi ar gyfer masnachfreinio*
>
> *3. Cynyddu cyllid ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol*
>
> *4. Parhau i wella diogelwch a gwydnwch y rhwydwaith ffyrdd.*
>
> *5. Cwblhau'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd Cymru, yn enwedig ar Linellau Craidd y Cymoedd a chyflwyno'r tram-drenau newydd."*[59]

**68.** Roedd ein dull o graffu ar y gyllideb drafnidiaeth ddrafft yn dilyn y blaenoriaethau hyn yn fras.

## Cyflwyno'r gyllideb ddrafft trafnidiaeth

**69.** Y flwyddyn gyfredol, 2025-26, yw'r tro cyntaf i gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru gynnwys MEG penodol ar gyfer trafnidiaeth. Rydym wedi archwilio goblygiadau'r newidiadau hyn yn ystod gwaith craffu ar gyllidebau drafft 2025-26 a 2026-27. Rydym yn ddiolchgar am y deunydd esboniadol a nodir ym mhapur

[59] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Trafnidiaeth, 26 Tachwedd 2025

Ysgrifennydd y Cabinet.[60] Fodd bynnag, gwnaed newidiadau sylweddol yn strwythur y BELs yn 2025-26 ac rydym o'r farn y byddai datganiad clir o'r rhaglenni a'r gwasanaethau a gyllidir gan bob un ohonynt yn ddefnyddiol.

**70.** Nodwn fod y gyllideb drafnidiaeth ddrafft bellach yn cynnwys dau BEL Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), gyda BEL AME newydd Namau ar Ffyrdd wedi ei ychwanegu yn y gyllideb ddrafft gyfredol yn cynyddu cyfanswm y dyraniad AME £44.94 miliwn i £46.94 miliwn. Mae hyn ochr yn ochr â dau BEL refeniw nad ydynt yn arian parod, y cawsom ar ddeall eu bod yn cyfrif am ddibrisiant y cefnffyrdd a'r rhwydweithiau seilwaith rheilffyrdd datganoledig.

**71.** Esboniodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet fod y ddau BEL AME hefyd yn symiau nad ydynt yn arian parod, ond na fyddant bob amser yn rhai nad ydynt yn arian parod. Dywedodd fod y mwyafrif helaeth yn adlewyrchu newidiadau i brisiadau ffyrdd, sy'n gysyniad cyfrifyddu yn unig. Cynigiodd ddarparu nodyn technegol esboniadol.[61]

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion cryno o'r rhaglenni a'r gwasanaethau a gyllidir gan bob un o'r BEL yn y MEG Trafnidiaeth wedi ei ailstrwythuro, ynghyd â nodyn technegol yn esbonio pwrpas y ddau BEL AME, a sut mae'r rhain yn ymwneud â'r BEL refeniw nad ydynt yn arian parod.

## Addasu i'r hinsawdd

**72.** Buom yn trafod goblygiadau newid yn yr hinsawdd a'r cynnydd mewn digwyddiadau tywydd eithafol i'r rhwydwaith trafnidiaeth. Trafododd Ysgrifennydd y Cabinet beth mae hyn yn ei olygu i'r rhwydwaith ffyrdd, sydd wedi ei ddatganoli, a'r seilwaith rheilffyrdd sydd, ac eithrio Llinellau Craidd y Cymoedd, yn faes a gedwir yn ôl. Dywedodd wrthym y bydd angen gwario mwy o arian ar gynnal ein seilwaith o ganlyniad i ddigwyddiadau hinsoddol difrifol.[62]

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi faint o gyllideb drafnidiaeth ddrafft 2026-27 sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer mesurau addasu a lliniaru'r hinsawdd, a darparu ei hasesiad o'r lefelau buddsoddi sydd eu hangen dros y

---

[60] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Trafnidiaeth, 26 Tachwedd 2025

[61] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 17

[62] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 279

deng mlynedd nesaf mewn seilwaith trafnidiaeth datganoledig a seilwaith trafnidiaeth nad yw'n ddatganoledig.

## Cyflwyno Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol

**73.** Bydd 2026-27 yn gweld newid sylweddol yn y dull o gynorthwyo blaenoriaethau trafnidiaeth lleol a rhanbarthol. Ar ôl sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, mae Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, a'r flwyddyn nesaf fydd y gyntaf lle bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer blaenoriaethau lleol yn cael ei ddatganoli i awdurdodau lleol sy'n gweithio'n rhanbarthol drwy Gyd-bwyllgorau Corfforaethol.

**74.** Dywedir ym mhapur Ysgrifennydd y Cabinet y bydd £126 miliwn o'r cyfanswm o £138.8 miliwn o refeniw a dyraniadau cyfalaf i'r BEL Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol "i gefnogi ein blaenoriaethau trafnidiaeth rhanbarthol, gan gynnwys y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol".[63] Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym, o'r £126 miliwn y bydd £110 miliwn yn cael ei ddosbarthu i'r pedwar rhanbarth ar fformiwla gyllido bresennol sydd wedi ei mabwysiadu ar gyfer y gronfa drafnidiaeth ranbarthol. Bydd y balans o £126 miliwn yn cael ei wario ar 'weithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â rheilffyrdd' a argymhellir gan adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru ar ddewisiadau amgen yn lle ffordd liniaru'r M4.[64] Bydd gweddill cyfanswm y dyraniad o £138.8 miliwn i'r BEL hwn yn cynorthwyo gwaith cynnal a chadw priffyrdd lleol a chymorth arall i lywodraeth leol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod trefniadau monitro a gwerthuso bellach ar waith ar gyfer Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, a chynigiodd ddarparu nodyn ar y fformiwla ddyrannu.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am y fformiwla ddyrannu a gymhwysir i'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol, gan gynnwys y dyraniadau penodol ar gyfer pob un o'r pedwar rhanbarth, yn ogystal â rhagor o fanylion ar sut bydd gweddill y BEL Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol yn cael ei gwario.

[63] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Trafnidiaeth, 26 Tachwedd 2025
[64] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 20

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi manylion am sut bydd y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol, a'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn fwy cyffredinol, yn cael eu monitro a'u gwerthuso.

## Cyllid ehangach ar gyfer blaenoriaethau trafnidiaeth rhanbarthol

**75.** Buom yn trafod digonolrwydd y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol, gan ddefnyddio enghraifft cynllun Gwelliannau Trafnidiaeth Llanbedr. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud o'r blaen y byddai cyfraniad Llywodraeth Cymru at hyn yn digwydd drwy'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol.

**76.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym yr amcangyfrifir y byddai'r costau cyflawni yn Llanbedr yn £39 miliwn, ac roedd o'r farn y byddai'n 'hollol resymol'[65] i'w gyllido o gyfanswm dyraniad Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol Gogledd Cymru o £29 miliwn y flwyddyn, neu tua £150 miliwn dros bum mlynedd (yn amodol ar flaenoriaethau'r llywodraeth yn y dyfodol).

**77.** Fodd bynnag, cydnabu nad yw'r gronfa trafnidiaeth rhanbarthol ar ei phen ei hun yn bodloni'r uchelgeisiau mawr sydd wedi eu cynnwys yn y pedwar cynllun trafnidiaeth rhanbarthol. Pwysleisiodd bwysigrwydd archwilio pob posibilrwydd o ran cyllid, gan gyfeirio at y gronfa twf lleol, bargeinion dinesig a thwf, cyllid parthau buddsoddi, lle mae hynny ar gael, a chyfraniadau llywodraeth leol hefyd.[66] Nododd rôl i'r sector preifat, a chyfraniadau datblygwyr at seilwaith trafnidiaeth cysylltiedig.

**78.** Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ymgynghori ar gynigion ar gyfer dull gweithredu i Gronfa Twf Lleol y Deyrnas Unedig yng Nghymru. Rydym hefyd yn ymwybodol y gall cyfraniadau datblygwyr drwy gytundebau adran 106 a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol fod yn anodd eu sicrhau. Nodwn dystiolaeth a roddwyd i ni ar y gyllideb ddrafft gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio bod "Fframwaith Perfformiad Cynllunio Cymru wedi cael ei ailgyflwyno ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26".[67]

**79.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd yn flynyddol ar wariant yn ôl dull trafnidiaeth.

[65] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 62
[66] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 68
[67] Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio i'r Cadeirydd mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27, 2 Rhagfyr 2025

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am y cyllid ehangach y mae o’r farn y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo’r gwaith o gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan gynnwys lefel debygol y cyllid, y mathau o gynlluniau y gellir eu cyllido gan bob un a manylion am gyfyngiadau daearyddol ar y defnydd o'r ffynonellau hyn.

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am y graddau y defnyddir cyfraniadau datblygwyr ar hyn o bryd i gyllido seilwaith trafnidiaeth cysylltiedig, a sut mae'n ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau i'w defnyddio, gan gynnwys a ellid cynnwys hyn yn Fframwaith Perfformiad Cynllunio Cymru.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am sut bydd prosiectau aml-flwyddyn mawr fel Gwelliannau Trafnidiaeth Llanbedr yn cael eu rheoli drwy'r broses Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol yn gyffredinol, ac yn benodol y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol. Dylid darparu neu gyhoeddi copi o'r canllawiau a roddwyd i awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol ar fynediad at y gronfa er budd tryloywder.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adroddiadau blynyddol ar wariant yn ôl dull teithio wrth gyflawni Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys ac yn eitemu pob ffynhonnell gyllido, nid dim ond y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol.

## Teithio llesol

**80.** Nodwyd yn ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i'n hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2025-26 fod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu tua £55 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd i deithio llesol rhwng 2020-21 a 2024-25.[68] Mae'r cyllid hwn bellach yn rhan o'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol, ac nid yw bellach wedi ei neilltuo ar gyfer teithio llesol. Mae hyn yn destun pryder i'r rhai sy'n gweithio yn y sector. Rydym yn ymwybodol bod rhai awdurdodau lleol wedi gwneud ymdrech sylweddol i ddatblygu eu rhwydweithiau, ac o’r farn bod yn rhaid cynnal y momentwm hwn.

**81.** Pan wnaethom drafod hyn gydag Ysgrifennydd y Cabinet, eglurodd fod y rhaglenni drafft cychwynnol a gyflwynwyd ar gyfer cyllid trafnidiaeth ranbarthol yn

[68] Llywodraeth Cymru, Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, Chwefror 2025

awgrymu 'hyd yn hyn' y bydd y lefel hon o wariant a buddsoddiad mewn teithio llesol yn cael ei chynnal.[69]

**82.** Nodwn fod y rhaglenni y cyfeirir atynt ar ffurf drafft, ac nad ydynt wedi eu cymeradwyo. Nodwn hefyd y byddai gwariant o £55 miliwn ar deithio llesol yn 2026-27 yn union hanner gwerth y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol, sef £110 miliwn. Mae lefel y gwariant yn y dyfodol yn faes rydym o'r farn y gallai Pwyllgor y Senedd yn y dyfodol ddymuno ei ystyried fel rhan o'i waith craffu.

**83.** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn adolygu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, a dywedwyd yn ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i'n hadroddiad ar gyllideb ddrafft 2025-26 mai "Ein nod yw cwblhau'r adolygiad ym mis Gorffennaf 2025 a chyhoeddi yn fuan wedyn".[70] Nid yw'r adolygiad wedi cael ei gyhoeddi.

**84.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym ei fod yn deall y bydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Eglurodd ei swyddog y byddai hyn yn rhoi modd i'r adolygiad fyfyrio ar argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i Deithio Llesol yng Nghymru.[71] Cafodd hwn ei gomisiynu'n rhannol i ystyried materion a godwyd yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Deithio Llesol yng Nghymru, a ganfu bod "Llywodraeth Cymru'n dal i fod yn bell o gyflawni'r newid sylweddol mewn teithio llesol y bwriadwyd ei ysgogi trwy'r Ddeddf".[72] Byddwn eisiau trafod canlyniad yr adolygiad gydag Ysgrifennydd y Cabinet yn ystod gwaith craffu ym mis Chwefror. Gofynnwn felly i'r adolygiad gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Ionawr fan bellaf.

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r adolygiad o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 erbyn diwedd mis Ionawr fan bellaf.

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi manylion y drafft cychwynnol o raglenni teithio llesol mae'n disgwyl iddynt gael eu cyllido drwy'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol, sut bydd yn monitro a gwerthuso'r rhaglenni hyn, a sut bydd cyflwyno'r Gronfa yn cynnal momentwm, yn enwedig mewn meysydd lle mae buddsoddiad sylweddol eisoes wedi ei wneud.

---

[69] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 83
[70] Llywodraeth Cymru, Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26, Chwefror 2025
[71] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 101-102
[72] Archwilio Cymru, Teithio llesol, 19 Medi 2024

## Gwasanaethau bysiau

**85.** Mae cyllideb adnoddau BEL Cymorth Gwasanaethau Bysiau wedi cynyddu £2.67 miliwn i £143.17 miliwn, a'r gyllideb gyfalaf £8.92 miliwn i £39.92 miliwn, o gymharu â'r llinell sylfaen.

### Paratoi ar gyfer diwygio ym maes bysiau

**86.** Bydd cyflawni'r gwaith o ddiwygio bysiau yn flaenoriaeth allweddol yn 2026-27, gan dybio y bydd y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn dod yn gyfraith. Mae Map Ffordd Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwygio Bysiau yn nodi'n glir y bydd gwasanaethau bysiau masnachfraint yn cael eu gweithredu yn ne-orllewin Cymru yn 2027, ac yna yng ngogledd Cymru, de-ddwyrain Cymru a chanolbarth Cymru rhwng 2028 a 2030.

**87.** Pan ofynnwyd iddo yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft a oes ymrwymiadau mewn perygl yn ystod 2026-27, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mai'r bygythiad mwyaf o bosibl yw'r bygythiad i wasanaethau bysiau, fel gwasanaethau TrawsCymru a Fflecsi.[73] Nododd hefyd gyllid llywodraeth leol ar gyfer gwasanaethau bysiau fel pryder arbennig. Wrth drafod blaenoriaethau ar gyfer llywodraeth yn y dyfodol, dywedodd wrthym y bydd yn rhaid cael cynnydd sylweddol yn yr arian sydd ar gael i foderneiddio fflyd fysiau Cymru, a ddisgrifiodd fel 'y fflyd fysiau hynaf yn y Deyrnas Unedig'.[74]

**88.** Fforddiadwyedd gwasanaethau masnachfraint, a fydd fel gwasanaethau TrawsCymru yn cael eu darparu o dan gontract, oedd un o'r pryderon mwyaf arwyddocaol a godwyd gan randdeiliaid yn ystod ein gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru). Clywsom bryderon hefyd am barodrwydd awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn gwasanaethau bysiau unwaith y bydd eu dyletswyddau presennol yn cael eu disodli gan y rhai yn y Bil. Yn ei dystiolaeth yn ystod Cyfnod 1, pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet y gellid cyflawni arbedion drwy fasnachfreinio, ac y byddai tua £600 miliwn yn cael ei wario ar wasanaethau bysiau yn ystod y Senedd hon.

**89.** Mae sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet ar gyllid bysiau yn destun pryder. Maent yn mynd i'r afael â materion penodol a godwyd yn ystod Cyfnod 1 y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), ac ymddengys eu bod yn cadarnhau barn

[73] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 4
[74] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 249

rhanddeiliaid bod lefelau cyllido yn risg i gyflawni masnachfreinio. Gan nodi ei sylwadau am yr angen am fuddsoddiad, gan gynnwys yn y fflyd, rydym yn gweld tebygrwydd i'r twf sylweddol mewn gwariant refeniw ar reilffyrdd sydd wedi bod yn ofynnol ers i Rheilffyrdd TrC ddechrau gweithredu gwasanaethau, ac rydym yn cwestiynu a fydd buddsoddiad tebyg mewn masnachfreinio bysiau ar y gweill.

**90.** Cyn craffu ar y gyllideb ddrafft, fe wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu dadansoddiad o gyfanswm gwariant, a gwariant y pen, ar wasanaethau bysiau ar gyfer 2026-27, o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ni ddarparwyd hyn gan fod papur Ysgrifennydd y Cabinet yn esbonio nad oedd penderfyniadau terfynol ar ddyraniadau i ffrydiau cyllid unigol wedi eu gwneud eto.[75]

**Argymhelliad 26.** Cyn gynted ag y cadarnheir y dyraniadau, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tabl sy'n nodi cyfanswm y dyraniadau a'r dyraniadau y pen i gynorthwyo trafnidiaeth ar fysiau ac yn y gymuned ar gyfer 2026-27, o'i gymharu â phob un o'r tair blynedd flaenorol, gyda dyraniadau refeniw a chyfalaf wedi eu gwahanu a'r tabl wedi ei rannu yn ôl ffrwd cyllido unigol.

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am yr amcangyfrif aml-flwydd diweddaraf o'r gofyniad refeniw a chyfalaf ar gyfer cyflawni diwygio bysiau a'r seilwaith cysylltiedig sy'n cael ei ddefnyddio wrth gynllunio'r broses o gyflwyno masnachfreinio. Dylid dadansoddi hyn yn ôl refeniw a chyfalaf a rhoi sicrwydd y bydd hyn yn amddiffyn gwasanaethau presennol ac yn cefnogi eu gwelliant o dan y system ddiwygiedig.

## Cyllideb Trafnidiaeth Cymru

**91.** Ers sawl blwyddyn, rydym wedi ceisio craffu ar gyllideb lawn Trafnidiaeth Cymru (TrC) fel rhan o'r gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft. Rydym yn cydnabod yr heriau sydd ynghlwm wrth wneud hynny, ac rydym yn croesawu'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru a TrC i sicrhau bod y ffigurau diweddaraf ar gael i ni. Rydym yn ddiolchgar bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi darparu'r amcangyfrif diweddaraf ar gyfer 2026-27 yn ei bapur unwaith eto.

**92.** Gan hynny, darperir "iteriad cyntaf" cyllideb 2026-27 TrC yn ei bapur. Mae hyn yn cynnwys £1.2 miliwn o gynnydd mewn refeniw a £8.9 miliwn mewn cyfalaf yn nyraniad TrC o'r BEL Cymorth Gwasanaethau Bysiau, o'i gymharu â'r llinell sylfaen

[75] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Trafnidiaeth, 26 Tachwedd 2025

ddiwygiedig, gan ddod â chyfanswm ei ddyraniadau ar gyfer pob un i £10.5 miliwn a £39.9 miliwn yn y drefn honno.

**93.** Dywedodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod TrC wrthi'n datblygu strategaethau fflyd a depo ar sail aml-flwydd. Eglurodd bod llawer o waith yn mynd i mewn i hynny ar lefel strategol, i geisio datrys ble gallai'r safleoedd gorau fod.[76]

**94.** O ran cwblhau cyllideb ddrafft TrC, dywedwyd ym mhapur Ysgrifennydd y Cabinet y "bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i holi a herio rhagdybiaethau costau ac incwm ymhellach a fydd yn llywio llythyr cyllido blynyddol Llywodraeth Cymru" ar gyfer TrC.[77]

**Argymhelliad 28.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am sut mae'n herio Trafnidiaeth Cymru ar ei gynigion ar gyfer cyllideb diwygio bysiau er mwyn sicrhau bod hyn yn ddigonol ac yn cynnig gwerth am arian. Dylai hyn gynnwys manylion y materion penodol sy'n cael eu herio, ac ar ba sail mae cyllideb 2026-27 ar gyfer caffael fflyd a depo yn cael ei gosod.

## Cynllun peilot tocynnau bws £1 i blant a phobl ifanc

**95.** Mae tocyn bws £1 i blant a phobl ifanc yn gynllun peilot deuddeg mis a ddarperir ar draws blynyddoedd ariannol 2025-26 a 2026-27. Mae'r ffi o £1 yn cyferbynnu â theithio am ddim i bobl hŷn dros 60 oed, sydd sawl blwyddyn cyn oedran ymddeol y wladwriaeth. Ym mis Hydref, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yn y Cyfarfod Llawn y byddai cynnig teithio am ddim ar fysiau i bob unigolyn ifanc yn "anfforddiadwy yn yr hinsawdd ariannol bresennol".[78]

**96.** Roeddem yn croesawu sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet bod arwyddion cynnar yn gadarnhaol, gan awgrymu bod y cynllun peilot wedi arwain at 'gynnydd nodedig' mewn defnydd. Esboniodd ei farn bod cael pris o £1 yn sicrhau bod pobl ifanc yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth, ac fe wnaeth gyferbynnu'r sefyllfa â'r Alban, lle'r oedd ar ddeall bod teithio am ddim yn arwain at 'broblemau mawr gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol'.[79]

[76] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 143
[77] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Trafnidiaeth, 26 Tachwedd 2025
[78] Senedd Cymru, Y Cyfarfod Llawn, 7 Hydref 2025, paragraff 425
[79] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 153-154

**97.** Fe wnaethom drafod y ffaith y bydd y cynllun yn dod i ben ganol y flwyddyn yn 2026-27. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet mai'r llywodraeth nesaf fyddai'n penderfynu ar ei ddyfodol. Dywedodd nad yw'n 'gynllun drud', a'i fod yn costio £22 miliwn i'r garfan gyfan o bobl sy'n elwa arno.[80] Byddai angen dod o hyd i unrhyw gyllid yn y dyfodol yn y MEG Trafnidiaeth neu ei ddyrannu 'o'r canol'.[81]

**98.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Asesiad Effaith Hawliau Plant penodol wedi ei gynnal ar y cynllun peilot.[82]

**99.** Canfu Sgwrs Genedlaethol y Warant i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru (2023) fod 41 y cant o bobl ifanc 16 i 24 oed yn nodi mai trafnidiaeth oedd y prif rwystr rhag cael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.[83]

**100.** Nodwn fod adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar lwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16 yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys "yn benodol yr effaith ar fynediad pobl ifanc at addysg a hyfforddiant ôl-16" yn y cylch gorchwyl ar gyfer adolygu'r cynllun peilot.[84]

**Argymhelliad 29.** Dylai gwerthusiad Llywodraeth Cymru o bris cynllun peilot £1 plant a phobl ifanc gynnwys ystyriaeth a yw mwy o bobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu cael mynediad at addysg, hyfforddiant a/neu gyflogaeth yng nghyd-destun canfyddiadau Sgwrs Genedlaethol y Warant i Bobl Ifanc.

**Argymhelliad 30.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r Asesiad Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y polisi tocynnau bws am £1.

## Trenau

**101.** Mae £400.10 miliwn o gyllid refeniw wedi ei ddyrannu ar gyfer BEL Cymorth Gwasanaethau Rheilffyrdd, sy'n £12.57 miliwn o gynnydd o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig. Y dyraniad cyfalaf yw £180.33 miliwn – £1.26 miliwn o ostyngiad o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig. Rydym yn nodi bod y BEL

[80] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 166
[81] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 172
[82] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 183
[83] Llywodraeth Cymru, Sgwrs Genedlaethol Gwarant Pobl Ifanc: diweddariad i gyfranogwyr, 9 Mawrth 2023
[84] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16, Tachwedd 2025

cyfalaf hwn wedi gweld cynnydd sylweddol yng nghyllideb 2025-26 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**102.** Buom yn trafod y lefel uchel o gymhorthdal ar gyfer rheilffyrdd, ac yn enwedig y bwlch rhwng refeniw prisiau a chostau gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn flaenorol mai rhwng 2023 a 2025-26 yw'r 'bwlch anodd'.[85]

**103.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, mewn cyferbyniad â masnachfraint flaenorol Trenau Arriva Cymru, bod Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o wasanaethau, yn caffael trenau newydd ac mae gweithwyr yn cael eu trin y well, sydd 'i gyd yn costio arian'.[86]

**104.** Esboniodd ei swyddog fod lefelau cymorthdaliadau wedi sefydlogi. Fodd bynnag, gan fod bron y cyfan o wasanaethau rheilffyrdd Cymru yn cael cymhorthdal, mae lefelau cymhorthdal wedi cynyddu'n rhannol oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi dewis rhoi cyfarwyddyd i Trafnidiaeth Cymru gynyddu ei wasanaethau[87]. Yn ddiweddarach, tynnodd ei swyddog sylw hefyd at y ffaith bod yr £800 miliwn o fuddsoddiad mewn cerbydau hefyd yn ffactor, a bod y cyllid dros sawl blwyddyn drwy daliadau prydles.

**105.** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi y bydd prisiau tocynnau trenau rheoledig yn Lloegr yn cael eu rhewi yn y flwyddyn sydd i ddod. Pan ofynnwyd iddo a fyddai Llywodraeth Cymru yn dilyn yr esiampl, o ystyried goblygiadau refeniw penderfyniad o'r fath, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai hyn yn benderfyniad i'r Cabinet. Fodd bynnag, dywedodd ei fod o blaid gwneud unrhyw beth posibl i helpu pobl gyda chostau byw. Dywedodd ei fod yn aros am ganlyniad cyllideb y Canghellor ac eglurder ynghylch a fydd Cymru'n cael cyllid canlyniadol Barnett o ganlyniad i rewi'r prisiau yn Lloegr. Byddai penderfyniad wedyn yn cael ei wneud ar brisiau yng Nghymru.[88]

**106.** Pan wnaethom drafod trefniadau i ddigolledu teithwyr am unrhyw oedi sy'n hwy na 15 munud, esboniodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet fod iawndal a ddyfarnwyd wedi gostwng wrth i berfformiad wella. Cynigiodd Ysgrifennydd y

[85] Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 37
[86] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 200
[87] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 203
[88] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 262

Cabinet hefyd ofyn i TrC ddarparu papur ar effaith gymdeithasol ac economaidd system drafnidiaeth gwbl integredig.

**Argymhelliad 31.** Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y pwyllgor yn amlinellu goblygiadau refeniw penderfyniad y Cabinet ar brisiau tocynnau trenau rheoledig pan gaiff ei wneud, p'un a yw prisiau'n cael eu rhewi neu eu cynyddu.

**Argymhelliad 32.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut mae goblygiadau refeniw hirdymor a fforddiadwyedd lefelau gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu hasesu wrth gynllunio cynnydd mewn lefel gwasanaethau rheilffyrdd yn y dyfodol.

**Argymhelliad 33.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am yr iawndal a dalwyd gan TrC dros y tair blynedd diwethaf, wedi eu rhannu yn ôl hyd yr oedi (15 i 30 munud, 30 i 60 munud a 60 munud neu fwy).

## Blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer buddsoddi mewn rheilffyrdd

**107.** Buom yn trafod ymrwymiadau Adolygiad Gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar seilwaith rheilffyrdd gydag Ysgrifennydd y Cabinet, a sut mae'r rhain yn integreiddio â buddsoddiad Llywodraeth Cymru i sicrhau gwerth am arian.

**108.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd yn ystyried y £302 miliwn a ymrwymwyd ar gyfer rheilffyrdd yng nghyfnod yr Adolygiad Gwariant, sef rhan o becyn ehangach o £445 miliwn, fel diwedd y mater o ran y swm y gellid ei roi tuag at rheilffyrdd trwm o fewn y cyfnod gwariant hwn. Eglurodd fod hyn yn rhan o gylch gwaith Bwrdd Rheilffyrdd Cymru.[89]

**109.** Mae Bwrdd Rheilffyrdd Cymru wedi bod yn paratoi piblinell o brosiectau ond nid yw hyn wedi ei gyhoeddi eto. Fe wnaethom ofyn pryd byddai'r biblinell yn cael ei chyhoeddi, ac a fyddai cynllun cyflawni cysylltiedig. Dywedodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn 'gobeithio' cyhoeddi'r biblinell yn ystod y flwyddyn galendr hon, ond mae'r cynllun cyflawni yn fater i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.[90]

**110.** Sefydlwyd Bwrdd Rheilffyrdd Cymru yn 2021 i ddod â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghyd, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol y diwydiant rheilffyrdd. Fodd bynnag, er gwaethaf ei bwysigrwydd wrth nodi blaenoriaethau buddsoddi mewn rheilffyrdd yn y dyfodol, nid ydym yn

[89] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 286
[90] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 295

ymwybodol o unrhyw gylch gorchwyl cyhoeddedig na manylion ei raglen waith. Nid ydym o'r farn y dylid gwneud gwaith mor bwysig yn breifat, ac mae mwy o dryloywder yn hanfodol.

**Argymhelliad 34.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod piblinell prosiect Bwrdd Rheilffyrdd Cymru yn cael ei chyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon fel yr addawyd. Dylai amcangyfrifon o gostau ddod gyda hyn.

**Argymhelliad 35.** O ystyried pwysigrwydd cynyddol Bwrdd Rheilffyrdd Cymru, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cylch gorchwyl, aelodaeth a manylion ei rhaglen waith a'i phenderfyniadau yn cael eu cyhoeddi er budd tryloywder ac atebolrwydd.

## Priffyrdd

**111.** Mae dyraniad Camau Gweithredu refeniw gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd yn cynyddu £9.81 miliwn o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig, i £127.74 miliwn. Mae'r cynnydd hwn yn gyfan gwbl o fewn y BEL Taliadau Cytundebol Rhwydwaith Ffyrdd Strategol sy'n cyllido nifer o gontractau, gan gynnwys rheoli'r A55 ac adrannau 5 a 6 o'r A465. Mae dyraniadau cyfalaf Gweithrediadau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ac Adnewyddu wedi cynyddu £8.92 miliwn o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig, i £195.32 miliwn.

**112.** Rydym hefyd yn nodi dyraniad pellach ar gyfer Menter Benthyca Llywodraeth Leol, sy'n cynorthwyo benthyciadau gan lywodraeth leol ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd lleol. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet yn glir bod hyn yn cael ei gyllido gan y BEL Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol.

**113.** Mae ôl-groniadau cynnal a chadw sylweddol ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a'r rhwydwaith ffyrdd lleol. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o amcangyfrifon a gyhoeddwyd yn ddiweddar o gost yr ôl-groniad hwn.

**114.** Roedd gennym ddiddordeb mewn clywed esboniad swyddog Ysgrifennydd y Cabinet, wrth i foderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd agosáu at gael ei gwblhau, bod gwariant bellach yn dechrau gostwng, a bod hyn yn codi'r cwestiwn i lywodraeth yn y dyfodol sut dylid gwario'r cyllid cyfalaf hwn. Cyfeiriodd at ddewisiadau ar gyfalaf bysiau a chefnogi masnachfreinio, a bod dewisiadau o ran ffyrdd hefyd.[91]

[91] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 305

**115.** Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at Adolygiad Lugg yn 2023 o gynnal a chadw'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yng Nghymru, a argymhellodd fabwysiadu dull rheoli asedau cynhwysfawr. Wrth drafod sut gellid gwario cyfalaf sydd wedi ei ddyrannu i Linellau Craidd y Cymoedd yn y dyfodol, dywedodd y byddai'n annog unrhyw Weinidog yn y dyfodol i gymryd cynnal a chadw ffyrdd yn gyfan gwbl o ddifri.[92] Nodwn fod cylch gorchwyl Adolygiad Lugg yn cyfeirio at tua £1 biliwn o ôl-groniad cynnal a chadw cyfalaf ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol.[93]

**116.** Roedd cyllideb 2025-26 yn cynnwys £5 miliwn o gyllid refeniw 'rheolaidd' ar gyfer menter fenthyca newydd i lywodraeth leol er mwyn galluogi awdurdodau lleol i fenthyca hyd at £60 miliwn ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd lleol. Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd mewn datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru fod hyn wedi ei gynyddu i £10 miliwn, gan gefnogi gwerth £120 miliwn o fenthyciadau dros ddwy flynedd (2025-26 a 2026-27).[94]

**117.** Dywedir ym mhapur Ysgrifennydd y Cabinet bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £4 miliwn ychwanegol yn y fenter yn y gyllideb hon.[95] Er ein bod ni wedi nodi bod cyfanswm y cymorth refeniw rheolaidd i awdurdodau lleol yn parhau i fod yn £10 miliwn, a chyfanswm y benthyca a gefnogwyd yn parhau i fod yn £120 miliwn dros ddwy flynedd – yr un ffigur a gyhoeddwyd ym mis Mawrth.

**118.** Fe wnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru egluro hyn. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet y cafodd hynny ei gyhoeddi ym mis Mawrth, ond mae'n arian newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.[96]

**Argymhelliad 36.** Dylai Llywodraeth Cymru roi ei hasesiad cyfredol i ni o werth yr ôl-groniad cynnal a chadw ar y rhwydwaith cefnffyrdd a'r rhwydwaith ffyrdd lleol.

**Argymhelliad 37.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am y Rhaglen Adnewyddu Asedau Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a'r cynllun aml-flwyddyn i fynd i'r afael â'r swm oddeutu £1 biliwn o ôl-groniad cynnal a chadw cyfalaf ar yr Rhwydwaith Ffyrdd Strategol y cyfeirir ato yn adolygiad Lugg.

[92] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 306
[93] Llywodraeth Cymru, Cynnal y rhwydwaith strategol yng Nghymru (Adolygiad Lugg)
[94] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg: £1.6 biliwn yn ychwanegol ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru wrth i'r gyllideb gael ei phasio, 4 Mawrth 2025
[95] Llywodraeth Cymru, Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Trafnidiaeth, 26 Tachwedd 2025
[96] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 323

**Argymhelliad 38.** Roedd y £5 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol yn y gyllideb ddrafft eisoes wedi ei gyhoeddi ym mis Mawrth. Er ein bod ni'n deall bod dyraniad 2026-27 yn cael ei wneud yn y gyllideb hon, dylai Llywodraeth Cymru gymryd gofal wrth ddisgrifio dyraniadau cyllid i nodi'n glir ble maent eisoes wedi eu cyhoeddi.